**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 22ain Mai 2001
**Amser:** 9:30 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Adrian Green | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** John Griffiths a Val Feld

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi: LEG-13-2001 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2001.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Diolchodd y Cadeirydd i Glyn Davies am weithredu fel Cadeirydd dros dro yn ystod ei absenoldeb yn y cyfarfod blaenorol.

2.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau iddynt yn y cyfarfod blaenorol ystyried y **Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) (LC248)**. Roedd Mr Turnbull wedi ysgrifennu at y cyfreithiwr drafftio dan sylw yn egluro nad ystyriai'r Pwyllgor bod defnyddio iaith sy'n gwahaniaethu rhwng cenedl

enwau yn dderbyniol ac nad dyna oedd polisi’r Cynulliad.

2.3 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau iddo yntau a Mr Turnbull dderbyn gwahoddiad i roi tystiolaeth gerbron y Grwp Adolygu Gweithdrefnau’r Cynulliad ar y ddau bapur a gyflwynwyd gan y Pwyllgor. Cynhelir y cyfarfod ar 13eg Mehefin.

2.4 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau fod Adrian Green yn gadael Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor er mwyn dechrau ar swydd gydag Ysgrifenyddiaeth y Siambr. Byddai Olga Lewis yn ei olynu. Diolchodd y Pwyllgor i Adrian am ei holl waith caled a dymuno’n dda iddo yn ei swydd newydd.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i’w Hystyried**

**LC255: Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2001**
3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Rheoliad ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol gyfle i gael cip ar ddrafft cynnar gan sylwi ar nifer o bwyntiau a ymgorfforwyd i’r drafft terfynol.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau drafft fel LC255 (Adroddiad).

**LC256: Rheoliadau Deunyddiau Porthi (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2001**
3.4 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i’r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.5 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau fod materion i’w codi o dan Reol Sefydlog 11.5.

- Roedd teitl Offeryn Statudol yn nhestun Cymraeg Rheoliad 2 yn anghywir.
- Mae Rheoliad 5 yn cyfeirio at hepgor y rheoliadau anghywir.
- Mae troednodiadau (h), (l) a (k) yn cyfeirio at yr Offeryn Statudol anghywir.

Gan fod y rhain yn fân wallau drafftio cytunwyd y dylid eu diwygio o dan Rh.S. 22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn nodi ei fod yn amodol ar gywiro’r gwallau yn y modd hwn.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau drafft fel LC256 (Adroddiad).

**LC257: Rheoliadau Gelatin (Masnach o fewn y Gymuned) (Cymru) 2001**

3.7 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau drafft fel LC257 (Adroddiad).

**LC258: Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001**

3.10 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn drafft fel LC258 (Adroddiad).

**LC259: Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) 2001**

3.13 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.14 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol gyfle i gael cip ar ddrafft cynnar o'r Rheoliadau gan sylwi ar nifer o bwyntiau a ymgorfforwyd i'r drafft terfynol.

3.15 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau drafft fel LC259 (Adroddiad).

**LC260: Gorchymyn Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2001**

3.16 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.17 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.18 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn drafft fel LC260 (Adroddiad).

**LC261: Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig, Briwgig a Pharatoadau Cig) (Cymru) 2001**

3.19 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.20 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.21 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC261 (Adroddiad).

**LC262: Rheoliadau Clwy’r Traed a’r Genau (Marcio Cig, Cynhyrchion Cig, Briwgig a Pharatoadau Cig) (Cymru) 2001**

3.22 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.23 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.24 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC262 (Adroddiad).

**LC263: Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy’r Traed a’r Genau) (Cymru) (Rhif 6) 2001**

3.25 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.26 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.27 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC263 (Adroddiad).

**LC264: Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy’r Traed a’r Genau) (Rhif 6) (Cymru) (Diwygio) 2001**

3.28 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.29 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt ychwaith unrhyw sylwadau cyffredinol.

3.30 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC264 (Adroddiad).

**LC265: Gorchymyn Sgil-Gynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio) (Cymru) 2001**
3.31 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.32 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.33 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC265 (Adroddiad).

**LC266: Rheoliadau Cynhyrchion Cig sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Diwygio) (Cymru) 2001**
3.34 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.35 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.36 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC266 (Adroddiad).

**LC267: Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 6) 2001**
3.37 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.38 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt ychwaith unrhyw sylwadau cyffredinol.

3.39 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC267 (Adroddiad).

**LC268: Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 7) 2001**
3.40 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.41 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.42 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC268 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**

4.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 5 Mehefin 2001.

Adroddiadau a Atodir

- LC255 (Adroddiad)
- LC256 (Adroddiad)
- LC257 (Adroddiad)
- LC258 (Adroddiad)
- LC259 (Adroddiad)
- LC260 (Adroddiad)
- LC261 (Adroddiad)
- LC262 (Adroddiad)
- LC263 (Adroddiad)
- LC264 (Adroddiad)
- LC265 (Adroddiad)
- LC266 (Adroddiad)
- LC267 (Adroddiad)
- LC268 (Adroddiad)